# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

## Cofnodion: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Medi 2017

Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel
12:00 hanner dydd – 1:15pm dydd Mawrth 26 Medi 2017
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc trafod: Y rhai sy'n gofalu am bobl y mae dementia'n effeithio arnynt

### Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Dr Dai Lloyd AC; Joshua Bell (ar ran Hannah Blythyn AC); Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AC); Calum Davies (ar ran Suzy Davies AC); Mark Major (ar ran Caroline Jones AC)

Sue Phelps, Ed Bridges, Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer's Cymru - ysgrifenyddiaeth y Grŵp); Kate Cubbage (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru); Monica Reardon (Marie Curie); Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain); Claire Hardcastle (Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd); Catrin Edwards (Hospice UK); Daisy Cole (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru)

Linda Willis, Adele Morgan, Ceri Higgins, Nigel Hullah (pobl y mae dementia yn effeithio arnynt / gofalwyr / gwirfoddolwyr)

### Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- Croesawodd **Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod
- Ymddiheuriadau: Simon Thomas AC

### Ethol swyddogion

- Cafodd **Lynne Neagle AC** ei hail-ethol yn gadeirydd
- Penodwyd **Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru)** yn ysgrifennydd**.**

### Y camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod blaenorol

- Ysgrifennodd **Lynne Neagle AC** at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon i'w wahodd i gyfarfod y Grŵp yn y dyfodol i drafod gofal diwedd oes i bobl y mae dementia'n effeithio arnynt. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet gan ddweud y byddai'n hoffi dod i gyfarfod y Grŵp wedi i Strategaeth Dementia Cymru gael ei chyhoeddi (dosbarthwyd y llythyr gyda'r cofnodion)

### Cyflwyniad ar y problemau sy'n wynebu'r rhai sy'n gofalu am bobl â dementia

Siaradodd **Kate Cubbage** (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru) ar ddwy thema eang:

- Triongl gofal i'r rhai sy'n gofalu am bobl â dementia - argymhelliad: dylai hyrwyddwyr gofalwr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol gael hyfforddiant a chymorth i ddeall egwyddorion y triongl gofal
- Gofal seibiant - argymhelliad: rhaid cydnabod pwysigrwydd gofal seibiant a chyfnodau o egwyl byr a'i ariannu mewn ffordd gynaliadwy; gellid efelychu'r Alban a sefydlu cronfa gofal benodol at y diben hwn neu glustnodi arian hirdymor ar gyfer gofal seibiant yng nghyllidebau'r awdurdodau lleol neu'r Byrddau Iechyd Lleol.

Dosbarthwyd sleidiau PowerPoint gyda'r cofnodion.

## Trafodaeth

- Soniodd **Nigel Hullah, Ceri Higgins, Adele Morgan a Linda Willis** am faterion a gododd o'u profiadau personol o fyw gyda rhywun neu ofalu am rywun â dementia:
  - Mae'n bosibl nad yw gofalwyr yn gofyn am gymorth oherwydd eu bod yn ' gwybod na fydd cymorth ar gael iddynt'
  - Mae pobl sy'n byw gyda dementia hefyd yn elwa o gael seibiant oddi wrth eu teulu - nid 'seibiant' i'r gofalwyr yn unig ydyw
  - Nid yw llawer o bobl sy'n gofalu yn credu mai gofalwyr ydynt ac/neu nid ydynt yn sylweddoli bod ganddynt hawl i gael asesiad gofalwyr
  - Nid yw llawer o'r gofal 'seibiant' sydd ar gael yn addas ar gyfer pobl â dementia
  - Darllenodd Nigel Hullah gyflwyniad ysgrifenedig gan Jayne Goodrick, sef 'Who cares for the carer?' Roedd yn cynnwys disgrifiad o brofiadau dau a oedd yn gofalu am bobl â dementia.

- Dywedodd **Daisy Cole** (Comisiynydd Pobl Hŷn) fod angen ailystyried y derminoleg yn ymwneud â 'gofal seibiant' gan nodi y bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn ymgymryd â gwaith yn y maes hwn, gan archwilio dull cyfannol o ymdrin â gofal seibiant ac osgoi labelu pobl.

- Ategodd **Dr Rosslyn Offord** (BPS) y pwynt a godwyd am y derminoleg yn ymwneud â gofal seibiant gan ddweud nad oedd yn helpu. Dywedodd hefyd nad yw pob gofalwr yn ystyried eu bod yn ofalwyr – mae'n bwysig ailfeddwl am iaith. Cyfeiriodd hefyd at gynllun o'r enw ' START - strategaethau ar gyfer perthnasau - sy'n ceisio hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu strategaethau ymdopi i'r rhai sy'n gofalu am bobl â dementia.

- Tynnodd **Catrin Edwards** (Hospice UK) sylw at lwyddiant gwasanaethau 'ad hoc' sy'n gweithio'n dda, er enghraifft prosiect CARIAD (Gofal a Pharch mewn Dementia Uwch) ym Mlaenau Gwent, lle mae Cymdeithas Alzheimer's a Hosbis y Cymoedd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn y gymuned, gan gefnogi'r person sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Gallant fanteisio ar wasanaeth nyrsys clinigol arbenigol a gweithwyr cymorth dementia ac mae cynllun cyfeillio ar waith hefyd.

- Dywedodd **Monica Reardon** (Marie Curie Cymru) nad yw llawer o ofalwyr yn gwybod am y cymorth sydd ar gael ac felly nid ydynt yn gwybod beth i ofyn amdano. Hefyd, nid yw gweithiwr proffesiynol eu hunain bob amser yn gwybod beth sydd ar gael, felly mae'n bwysig bod y gweithwyr hyn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn iddyn nhw fedru ei throsglwyddo i ofalwyr.

- Cyfeiriodd **Claire Hardcastle** (RCSLT) at y gwahaniaeth yn y mathau o wasanaethau sydd ar gael yn GIG Cymru, er enghraifft mae hi'n gweithio ar brosiect yn ymwneud â phobl iau â dementia ac mae'r rhain yn cael mwy o gymorth na phobl sydd â mathau eraill o ddementia, oherwydd na yw pob bwrdd iechyd yn clustnodi arian ar ei gyfer.

## Ymgynghori ynghylch y Strategaeth Gofalwyr

Mae'r ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Gofalwyr diwygiedig Llywodraeth Cymru ar fin dechrau yn ystod yr wythnosau nesaf, felly bydd y Grŵp yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad a fydd yn cynnwys y themâu allweddol a drafodwyd.

- Cyfeiriodd **Kate Cubbage** (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru) at y ffaith bod y problemau sy'n wynebu gofalwyr i'w priodoli i'r modd y caiff y strategaeth a'r ddeddfwriaeth (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) *eu rhoi ar waith*, yn hytrach na'r ddeddfwriaeth a'r polisi ei hunain, sy'n addas i'r diben.
- Roedd **Sue Phelps** (Cymdeithas Alzheimer's Cymru) a **Nigel Hullah** hefyd o'r farn fod angen cynllun cyflenwi penodol i roi'r Strategaeth Gofalwyr ddiwygiedig ar waith yn effeithiol.

## Unrhyw fater arall

Dim

## Camau i'w cymryd erbyn y cyfarfod nesaf

- **Lynne Neagle AC** i ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Gofalwyr ddiwygiedig ar ran y Grŵp.
- **Lynne Neagle AC** i holi Ysgrifennydd y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant am y broses o ymgynghori ynghylch y Strategaeth Gofalwyr, ac a oes bwriad i ymgynghori â gofalwyr yn uniongyrchol.

## Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2017
- Dydd Mawrth 27 Chwefror 2018
- Dydd Mawrth 22 Mai 2018

Y pynciau sydd i'w cynnwys i'w gadarnhau – gan ddibynnu ar y dyddiad y caiff y Strategaeth Dementia ei chyhoeddi